

Gallaf ysgrifennu trafodaethau ar gyfer ...

 • A ddylai plant gael caniatâd i wyllo beth bynnag a fynnant ar y teledu?

• Gwaith cartref! A oes bywyd ar ôl ysgol?

• A ddylai disgyblion gael eu gorfodi i wisgo gwisg ysgol?



• Sŵ! Pethau da neu wael i anifeiliaid?



• A ddylai anifeiliaid berfformio mewn syrcais?



• Sglodion gyda phopeth? Ie neu na?

• A ddylid gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion?

• Gwahardd hela llwynogod / morfilod ai peidio?

• A ddylai plant ddewis eu llyfrau eu hunain?

• Oes angen ffordd osgoi ar y pentref?

 • A ddylai plant gerdded i'r ysgol?

• A ddylid cosbi neu helpu bwlis?

Sut i gyflwyno 'Trafodaeth'



• Erthygl papur newydd neu gylchgrawn gyda lluniau a ffotograffau

• Pwyntiau bwled mewn colofnau

• Pamffled

• Taflen

• Dadl

• Cyfweliad â phobl sydd â gwahanol safbwyntiau



• Llythyr

Rhestr wirio 'Ysgrifennu Trafodaeth'

Wnes i gofio ...?

Cyflwyniad yn nodi'r ddadl



Dadl o blaid ac yn erbyn gyda thystiolaeth i gefnogi



Crynodeb a chasgliad



Cysyllteiriau rhesymegol



Brawddegau cymhleth



Amser presennol



Cydbwysu pob safbwynt



Addasiad o bamffled Tîm Llythrennedd Swydd Gaerhirfryn

Sut i Ysgrifennu Testun Trafod





Beth yw pwrpas eich testun trafod?

- Cyflwyno gwahanol safbwyntiau am destun
- Cyflwyno'r dystiolaeth a'r wybodaeth o bob ochr



I bwy mae'r testun trafod?

- Rhywun sydd eisiau gwybod pob dim am y mater a deall y gwahanol safbwyntiau
- Rhywun sydd eisiau help i ddod i benderfyniad am y mater



Strwythur a threfniant

- Dechreuwch gyda datganiad agoriadol am y mater a throsolwg cyffredinol o'r gwahanol safbwyntiau
- *Naill ai* - ysgrifennwch y ddadl **DROS** gyda thystiolaeth i gefnogi, yna'r ddadl **YN ERBYN** gyda thystiolaeth i gefnogi;
- *Neu* - Ysgrifennwch un pwynt **DROS** gyda thystiolaeth i gefnogi, yna un pwynt **YN ERBYN** gyda thystiolaeth i gefnogi. Parhewch drwy'r pwyntiau, un ar y tro.
- Cyflwynwch bob dadl mewn paragraff ar wahân
- Gorffennwch gyda chrynodeb a chasgliad. Gallwch fynegi eich barn chi ar y diwedd.

Yr iaith i'w defnyddio

- Yr amser presennol
- Trydydd person
- Amhersonol
- Brawddegau cymhleth
- Cysyllteiriau: er hynny, eto i gyd, ar y naill law, ar y llaw arall, hefyd, yn ogystal, felly, er enghraifft, er, mewn cyferbyniad
- Dechreuwch gyda datganiadau cyffredinol yna symudwch tuag at y penodol.

Cred bobl sy'n caru anifeiliaid mai peth creulon yw cadw morfilod mewn caethiwed. Cadwyd Keiko, y morfil orca yn y ffilm 'Free Willy' mewn caethiwed am flynyddoedd cyn ei ryddhau i'r cefnfor.



O BLAID

YN ERBYN



Crynodeb a chasgliad

Cliwiau i'r clyfar!

- Defnyddiwch gwestiwn fel teitl
A ddylai disgyblion wneud gwaith cartref?
- Cyflwynwch y darllenwr i'r drafodaeth a pham yr ydych yn ysgrifennu amdano
- Cadwch y ddadl yn gytbwys a chyflwynwch bob safbwynt mor deg a phosib
- Cefnogwch bob safbwynt â rhesymau a thystiolaeth
- Os cyflwynwch eich barn eich hun yn y diwedd, rhwch resymau dros eich penderfyniad

